# Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu

## Pecyn Recriwtio



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

# Cynnwys


**Croeso gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr** 5
- Annwyl Ddarpar Ymgeisydd 5

**Ynglŷn â Sir Conwy** 6
- Prif Drefi Strategol 6
- Prif Ffyrdd Cludiant 6

**Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd** 8

**Cynllun Corfforaethol 2022-2027** 9

**Adroddiad Blynyddol 2021-2022** 9

**Ein Cyllid - Treth y Cyngor 2022/2023** 10

**Cipolwg ar beth mae'r Cyngor yn ei wneud** 12

**Ein hymateb i'r pandemig** 13

**Siart Sefydliadol** 14

**Y Cabinet** 16

**Hysbyseb Swydd** 17
- Swydd: Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu 17

**Swydd-Ddisgrifiad** 19
- Meysydd Cyfrifoldeb: 19
- Pwrpas y Swydd: 20
- Dyddiad Adolygu/Hawl i Amrywio 25

**Manylion am yr Unigolyn** 26

**Graddfa Gyflog Prif Swyddog 01/04/2022-23** 29

**Amodau a Thelerau Gwasanaeth/Buddiannau Gweithiwr** 30

**Sut i Ymgeisio** 32

**Diolch** 34






# Croeso gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr

## Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

Diolch i chi am fynegi diddordeb yn ein swydd uwch reoli wag. Oherwydd dyrchafiad y deiliad swydd presennol, rydym yn dymuno penodi Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu newydd i arwain a hyrwyddo'r safonau uchel o lywodraethu ac ymddygiad yn yr Awdurdod.

Rydym yn Gyngor Bwrdeistref Sirol uchelgeisiol, blaengar ac arobryn sydd â gweledigaeth i greu cyfleoedd i wella bywydau pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'n sir brydferth.

Rydym yn gyflogwr ardderchog gyda diwylliant tîm rhagorol. Rydym yn byw yn ôl yn ein gwerthoedd craidd sef gofalu am yr hyn a wnawn, bod yn deg, yn arloesol a gweithredu fel tîm. Rydym bob amser yn ceisio gwella'r hyn a wnawn, moderneiddio'r ffordd a weithiwn, ymdrin â'r heriau a wynebwn a chwilio am gyfleoedd newydd.

Rydym yn gallu gwneud hynny oherwydd bod gennym dîm arwain profiadol, rheolaeth gyllidol gref, trefniadau llywodraethu uchel eu parch a gwasanaethau cymorth ardderchog. Mae swydd uwch reoli Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yn gyfle gwych i ddatblygu gyrfa ar gyfer arweinydd ysgogol a chreadigol, sy'n gallu gweithio gyda'n gweinyddiaeth etholedig a'n uwch dîm, i lywio ein siwrnai tuag at welliant. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfreithiwr profiadol gyda chefndir blaenorol o lwyddiant ardderchog a bydd yn gallu cyfrannu syniadau arloesol er mwyn moderneiddio mewn byd ar ôl pandemig.

Mae'n dal i fod yn gyfnod heriol i Lywodraeth Leol, ac rydym yn chwilio am uwch reolwr sydd â chefndir blaenorol dangosadwy o ddarparu cyngor gweithdrefnol o safon uchel; sy'n benderfynol, creadigol, sy'n meddwl yn strategol ac sy'n gallu asesu risg i ddatblygu datrysiadau i broblemau cymhleth. Bydd gennych ddealltwriaeth helaeth o ddehongli Rheolau a Gweithdrefnau'r Cyfansoddiad a byddwch yn gyfathrebwr rhagorol. Bydd gennych sgiliau rheoli perthnasoedd o'r radd flaenaf, lefel uchel o ymwybyddiaeth wleidyddol, a byddwch yn hynod o wydn o dan bwysau. Fel unigolyn sy'n hoff o bobl, byddwch yn adnabod gwerth gwaith tîm ac yn angerddol dros weithio gyda ni ac ymgysylltu â'r cyhoedd i wella bywydau pobl Conwy a Gogledd Cymru.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am:

- Wasanaethau Cyfreithiol (i'r Cyngor a chleientiaid allanol)
- Gwasanaethau Democrataidd
- Gwasanaethau Etholiadol (gyda'r Prif Weithredwr yn Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol)
- Cefnogaeth a Datblygiad Aelodau
- Trosolwg a Chraffu
- Uned Iaith a Gwasanaethau Cyfieithu (i'r Cyngor a chleientiaid allanol)
- Gwasanaethau Cofrestru (Swyddog Priodol ar gyfer Cofrestryddion)
- Cymorth i Fusnesau (Cyfleuster Argraffu ynghyd â gwasanaeth cludo a gofalu ym Modlondeb).

Rydym ni'n awdurdod dwyieithog, sydd â balchder aruthrol yn ein treftadaeth Gymreig. Rydym yn chwilio am uwch arweinydd a fydd yn cyd-fynd â'n diwylliant ac yn ysbrydoli ein tîm.

Gobeithiwn y byddwch mor frwdfrydig a chyffrous am y cyfle ag yr ydym ni, ac edrychwn ymlaen at gael eich cais.

Yn gywir



Y Cynghorydd Charlie McCoubrey
Arweinydd



Rhun ap Gareth
Prif Weithredwr

# Ynglŷn â Sir Conwy

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i lleoli'n ganolog yng Ngogledd Cymru. Mae gan y Fwrdeistref Sirol arwynebedd o 113,000 hectar a phoblogaeth o 118,200 (amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2020). Mae tua 38% o'i harwynebedd a 4% o'i phoblogaeth o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae tirlun Bwrdeistref Sirol Conwy yn eithriadol, yn amrywio o draethau tywod helaeth a phentiroedd i ddyffrynnoedd cysgodol, gweundiroedd agored a mynyddoedd ysgithrog. Nid yw'n syndod fod ei heconomi'n dibynnu'n fawr ar dwristiaeth. Mae'r ardaloedd gwledig a'u cymunedau yn dibynnu ar weithgaredd amaethyddol a choedwigaeth, er nad yw'r sectorau hyn yn darparu lefel uchel o gyflogaeth uniongyrchol.

Mae'r rhimyn cul ar hyd yr arfordir yn cynnwys tua 90% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol gyda'r ddwy dref, Llandudno a Bae Colwyn, ar y brig o ran nifer eu poblogaeth. Mae Conwy wledig yn lle atyniadol, amaethyddol yn bennaf heb lawer o swyddi amgen ac ond ychydig o bwysau datblygu. Mae'r boblogaeth yn denau ac yn Gymraeg ei hiaith yn bennaf. Y brif anheddiad o ran nifer y boblogaeth yw tref farchnad Llanrwst.

## Prif Drefi Strategol

Mae prif drefi strategol Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys:

- **Llandudno** - tref wyliau bwysig a chanolfan ranbarthol hefyd ar gyfer siopa a diwylliant, yn denu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn
- **Bae Colwyn** - sydd wedi gweld cryn ddirywiad fel tref wyliau ers y 1950au, ond sydd yn flaenoriaeth ar gyfer adfywio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Cymru. Mae wedi derbyn cryn fuddsoddiad yn sgil Menter Bywyd y Bae
- **Cyffordd Llandudno** - sydd wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru yn ganolbwynt strategol pwysig yng Ngogledd Cymru, yn cysylltu'r Gogledd Ddwyrain a'r Gogledd Orllewin ac yn gweithredu hefyd fel safle adwerthu, gwasanaethu a chyflogi i gefn gwlad o gryn faint. Mae Cyffordd Llandudno bellach yn gartref i brif swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru
- **Llanrwst** - tref farchnad bwysig a chanolfan gwasanaethau yn Nyffryn Conwy, yn cefnogi cynaliadwyedd cymunedau gwledig
- **Abergele** - cyn dref marchnad a chanolbwynt adfywio sydd wedi ei lleoli yn nwyrain y sir.

## Prif Ffyrdd Cludiant

Y modd pwysicaf o gyrraedd Bwrdeistref Sirol Conwy, teithio oddi mewn iddi a'i gadael yw'r A55 ar hyd yr arfordir (Euroroute E22), y rheilffordd gyfochrog o Fanceinion a Llundain i Gaergybi, a'r A5 i'r de. Mae'r A470 yn darparu cyswllt rhwng y de a'r gogledd ac yn rhedeg yn gyfochrog â rheilffordd sy'n cysylltu Cyffordd Llandudno a Blaenau Ffestiniog.



# Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd




# Cynllun Corfforaethol 2022-2027

Mae ein cynllun yn nodi ein huchelgeisiau i wneud gwahaniaeth i bobl Conwy dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn cyflawni ein canlyniadau hirdymor i ddinasyddion. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd gan gymunedau, a thrwy ddadansoddi ymchwil a thueddiadau data am y sir, sydd wedi llywio ein blaenoriaethau.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r camau gweithredu allweddol y byddwn ni'n eu dilyn er mwyn adnewyddu ac ailadeiladu, wrth i ni weithio tuag at normal newydd. Ni allwn gyflawni ein nodau heb ein staff, sydd wedi gweithio'n ddiflino trwy gydol y pandemig. Mae blaenoriaethu lles a sgiliau staff yn hanfodol ar gyfer darparu ein gwasanaethau ac rydym yn falch o fod â gweithlu hynod gymhellol wedi'u hyfforddi'n dda. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn ac yn falch o'r ffordd mae cymunedau, gwirfoddolwyr, partneriaid a'n staff wedi dod at ei gilydd i ymateb i'r pandemig. Mae'r canolbwynt hwn ar y gymuned a'r cadernid yn rhywbeth rydym ni am adeiladu arno er mwyn creu cyfleoedd newydd a helpu ein sir i ffynnu. Mae'r pandemig wedi creu nifer sylweddol o faterion cymhleth, ond mae hefyd wedi cynnig cyfleoedd i weithio a darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol, a dyma beth rydym ni am ganolbwyntio arno yn ein cynllun ar gyfer adnewyddu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **Cynllun Corfforaethol Conwy 2022-27**.

# Adroddiad Blynyddol 2021-2022

Fel rhan o'n gwelliant parhaus, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyhoeddi adroddiad (Adroddiad Blynyddol) bob blwyddyn i esbonio beth wnaethpwyd i wneud gwelliannau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a lle rydym angen gwneud gwelliannau pellach. Mae hyn yn ofyniad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **Adroddiadau blynyddol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**.

**Roedd ein Harolwg Staff 2018 yn dangos fod 91% o staff yn teimlo fod y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r gymuned leol**

# Ein Cyllid - Treth y Cyngor 2022/2023


Mae copi o'n hadroddiad llawn 'Buddsoddi yn Eich Cymuned - Treth y Cyngor Conwy 2022/23' ar gael yma: https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Council-Tax/Council-Tax-Leaflet.aspx

## 2022 i 23 Ar beth y caiff eich arian ei wario bob blwyddyn

Mae'r enghraifft yma'n seiliedig ar **dreth y cyngor eiddo Band D** o **£1,438.15** y flwyddyn.


Addysg ac Ysgolion

£491.96

Gofal Cymdeithasol

£420.93

Costau Llog ac Ad-dalu Asedau

£91.14


Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a Rhyddhad Ardrethi Busnes

£66.38

Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol

£43.48

Taliadau i'r Gwasanaeth Tân a'r Parc Cenedlaethol

£40.19

Gwagio Biniau ac Ailgylchu

£33.70

Priffyrdd ac Isadeiledd


£26.56

Cludiant Ysgol

£31.41

Gwarchod y Cyhoedd, Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd

£18.25


Moderneiddio a Ffioedd Corfforaethol

£29.47

Twristiaeth, Theatrau, Cynadleddau a Digwyddiadau

£11.61

Rheoli Adeiladau'r Cyngor


£10.52

Democratiaeth

£12.49

Gwastraff i safle ynni/gwarediad


£10.94

Llyfrgelloedd

£13.24

Glanhau Strydoedd

£11.77

Pyllau Nofio a Chanolfannau Hamdden

£12.93

Atal Digartrefedd

£23.79

Cefnogi Busnesau a'r Gymuned


£12.53


Parciau a Gerddi

£8.12

Tîm Refeniw a Budd-daliadau ac Asesiad Ariannol

£6.82


Gwasanaeth Ieuenctid

£5.62

Rheoli Cefn Gwlad

£4.30



## Sut rydym yn cael ein cyllido

Wyddoch chi mai dim ond **29%** o'n cyllid sy'n dod gan Dreth y Cyngor?





| | |
|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw | £140.005m |
| Swm a godwyd gan dalwyr y Treth y Cyngor | £73.603m |
| Ardrethi busnes wedi eu hail-ddosbarthu | £43.306m |
| Cyfanswm | £256.914m |




# Cipolwg ar beth mae’r Cyngor yn ei wneud

Mae’r Cyngor yn gyfrifol am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus sy’n cefnogi bywydau pob dydd trigolion y Sir a’r rhai sy’n ymweld â hi. Dyma gipolwg o’r gwasanaethau amrywiol hyn ac o lefel gyfartalog y galw y mae’n rhaid i ni ei fodloni.





# Ein hymateb i’r pandemig

Mae’r graffigyn canlynol yn amlinellu ychydig o’r gwaith a wnaeth yr Awdurdod yn ystod pandemig Covid-19.



# Siart Sefydliadol



# Y Cabinet



Cyng. Charlie McCoubrey
Arweinydd




Cyng. Emily Owen
Aelod Cabinet Tai a Rheoleiddio a'r Dirprwy Arweinydd



Cyng. Chris Cater
Aelod Cabinet Democratiaeth a Llywodraethu



Cyng. Mike Priestley
Aelod Cabinet Cyllid, Refeniw a Budd-daliadau



Cyng. Penny Andow
Aelod Cabinet Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig



Cyng. Liz Roberts
Aelod Cabinet Plant, Teuluoedd a Diogelu



Cyng. Julie Fallon
Aelod Cabinet Addysg



Cyng. Goronwy Edwards
Aelod Cabinet yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau - Isadeiledd



Cyng. Geoff Stewart
Aelod Cabinet yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau - Cymdogaeth a'r Amgylchedd



Cyng. Aaron Wynne
Aelod Cabinet Diwylliant a Hamdden



# Hysbyseb Swydd

**Swydd:** **Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Cyflog:** **£68,218 - £78,292 y flwyddyn**

**Llawn Amser Parhaol**

**Lleoliad:** Hybrid/Swyddfeydd y Cyngor Bodlondeb, Conwy

**Cyfeirnod y Swydd:** REQ005008

**Ymunwch â Sir flaengar, sy'n Creu Cyfleoedd.**

Oherwydd dyrchafiad deiliad y swydd presennol, rydym yn dymuno penodi Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu newydd i arwain a hyrwyddo'r safonau uchel o lywodraethu ac ymddygiad yn yr Awdurdod.

**Amdanoch Chi**
Rydym yn chwilio am gyfreithiwr gwych, gyda phrofiad ôl gymhwyso sylweddol. Bydd gennych dystiolaeth o hanes blaenorol o ddarparu cyngor cyfreithiol a gweithdrefnol o safon uchel a blaengar o fewn cyd-destun perthnasol (e.e. llywodraeth leol, sector cyhoeddus, sector cysylltiedig arall). Gyda phrofiad o gyfrannu ar lefel uwch reolwr, byddwch yn gallu dangos eich bod yn gadarn, yn greadigol, yn meddwl yn strategol, ac yn gallu asesu risg i ddatblygu atebion i faterion cymhleth. Bydd gennych ddealltwriaeth helaeth o ddehongli Rheolau a Gweithdrefnau'r Cyfansoddiad. Bydd eich sgiliau yn dangos eich bod yn gyfathrebwr gwych, yn meddu ar sgiliau rheoli perthynas o'r radd flaenaf, lefel uchel o ymwybyddiaeth a dyfarniad gwleidyddol, ac yn hynod o wydn o dan bwysau. Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n hoff o bobl ac yn adnabod gwerth gwaith tîm ac yn angerddol dros weithio gyda ni ac ymgysylltu â'r cyhoedd i wella bywydau pobl Conwy a Gogledd Cymru.

**Amdanom Ni**
Yng nghanol Gogledd Cymru gyda swyddfeydd o'r radd flaenaf, gwasanaethau arloesol a thirwedd ragorol, rydym yn gyflogwr gwych gyda diwylliant tîm ardderchog. Rydym yn dilyn ein gwerthoedd craidd o fod yn angerddol dros yr hyn a wnawn, bod yn deg, arloesol a bod yn rhan o dîm. Rydym bob amser yn ceisio gwella'r hyn a wnawn, moderneiddio'r ffordd a weithiwn, ymdrin â'r heriau a chwilio am gyfleoedd newydd.

Rydym yn gallu gwneud hyn oherwydd bod gennym dîm arwain profiadol, rheolaeth ariannol cryf, trefniadau llywodraethu sy'n cael eu parchu a gwasanaethau cefnogi ardderchog.

**Ynglŷn â'r Swydd**
Mae Swyddog Monitro'r Cyngor yn sicrhau bod cyngor cyfreithiol a gweithdrefnol o safon uchel yn cael ei ddarparu ym mhob cam o broses benderfynu'r Cyngor a bod y safonau uchaf o ymddygiad a diwylliant llywodraethu corfforaethol cryf yn cael eu cynnal. Mae'r swydd yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau pwysig gyda phwyslais cryf ar gynhyrchu incwm. Bydd deiliad y swydd yn arwain a rheoli strategaethau cyfreithiol a llywodraethu, ac adolygu a chynnal Cyfansoddiad y Cyngor. Mae'r swydd yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac arweiniad a pholisïau ategol. Mae'r swydd yn

darparu cyngor strategol a phroffesiynol ar faterion cyfreithiol, cyfansoddiadol a llywodraethu corfforaethol. Hefyd, mae deiliad y swydd yn aelod allweddol o'r Tîm Arwain Strategol, yn cefnogi'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Strategol i greu newid i gyflawni amcanion y Cyngor, mewn ffordd fodern a rhagweithiol.

Er y byddai cefndir o weithio mewn llywodraeth leol yng Nghymru yn fantais benodol, nid yw'n angenrheidiol, gan fod gennym yr un diddordeb mewn penodi rhywun â'r nodweddion a grybwyllir uchod, sydd â dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol a chyfreithiol Cymreig ac a fydd yn ffitio'n dda yn ein tîm.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg sgyrsiol yn hynod o ddymunol ond nid yn hanfodol. Mae'r gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn ddymunol.

Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg gwych ar gyfer adroddiadau a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd pwyllgor. Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gynorthwyo staff i ddysgu/gwella eu Cymraeg.

I gael mwy o wybodaeth darllenwch ein canllawiau Sgiliau Cymraeg: **Canllawiau Sgiliau Cymraeg - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**.

I gael trafodaeth anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Rhun ap Gareth, Prif Weithredwr ar 01492 576015.

**Dyddiad Cau**: Hanner nos, 10 Ionawr 2023.

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais am y swydd, cliciwch ar y ddolen ganlynol: **Recriwtio Uwch Reolwyr**.

**Roedd ein Harolwg Staff 2018 yn dangos fod 84% o staff â hyder yng ngalluoedd y tîm arwain**



# Swydd-Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu | **Adran / Gwasanaeth:** | Y Gyfraith a Llywodraethu |
| **Oriau:** | 37 awr yr wythnos | **Lefel:** | Pennaeth Gwasanaeth 2 |
| **Yn atebol i:** | Prif Weithredwr | **Yn gyfrifol am:** | 5 aelod o staff uniongyrchol |
| **Lleoliad:** | Bodlondeb, Conwy | | |

## Meysydd Cyfrifoldeb:

### Atebolrwydd Cyffredinol

Atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol am reolaeth weithredol y gwasanaethau canlynol:

- Gwasanaethau Cyfreithiol (i'r Cyngor a chleientiaid allanol)
- Gwasanaethau Democrataidd
- Gwasanaethau Etholiadol (gyda'r Prif Weithredwr yn Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol)
- Cefnogaeth a Datblygiad Aelodau
- Trosolwg a Chraffu
- Uned Iaith a Gwasanaethau Cyfieithu (i'r Cyngor a chleientiaid allanol)
- Gwasanaethau Cofrestru (Swyddog Priodol ar gyfer Cofrestryddion)
- Cymorth i Fusnesau (Cyfleuster Argraffu ynghyd â gwasanaeth cludo a gofalu ym Modlondeb).

### Swyddog Monitro

Bod yn Swyddog Monitro ar gyfer yr Awdurdod.

### Tîm Arwain Strategol

Aelod allweddol o'r Tîm Arwain Strategol (y tîm gyda'r swyddogion uchaf yn yr Awdurdod), gan fynd ati i gefnogi'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol, cydweithwyr ac Aelodau Etholedig yn rhagweithiol wrth arwain a llywodraethu'r Awdurdod yn dda.

### Prif Amcanion

Bydd amcanion allweddol yn cael eu cynnig a'u trafod gyda deiliad y swydd a'u monitro gan y Prif Weithredwr.

## Pwrpas y Swydd:

### Rheolaeth Gyffredinol

Bod yn gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol, strategol a gweithredol y Gwasanaeth/au, gan gynnwys arwain ar ddatblygiad a gweithrediad blaenoriaethau gwasanaeth. (Nid yw'r Gwasanaethau a reolir o reidrwydd yn sefydlog ac mae'n bosibl y byddant yn newid eto yn y dyfodol wrth i flaenoriaethau corfforaethol neu anghenion sefydliadol newid).

### Polisïau a Strategaethau

Arwain, datblygu a gweithredu polisïau a strategaethau ar lefel Gwasanaeth, Corfforaethol ac ar draws y Rhanbarth, sy'n darparu safonau uchel a gwelliant parhaus o ran canlyniadau a safonau'r gwasanaeth.

### Cyflawni Swyddogaethau Statudol

Cynnal Awdurdod Dirprwyol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ran yr Awdurdod.

### Rheolaeth Gyffredinol y Cyngor

Cefnogi'r Prif Weithredwr gyda rheolaeth gyffredinol y Cyngor drwy'r gwasanaethau penodol gan sicrhau darpariaeth effeithiol o flaenoriaethau, strategaethau a phrif brosiectau'r Cyngor.

### Uwch Dîm Rheoli

Darparu arweinyddiaeth i wasanaethau penodol y Cyngor drwy aelodaeth yn yr Uwch Dîm Rheoli i sicrhau datblygiad polisi a darpariaeth gwasanaeth integredig.

### Perfformiad ac Effeithlonrwydd - Budd y Gymuned

Derbyn rôl allweddol i gynyddu perfformiad ac effeithlonrwydd ar draws y Cyngor a'i bartneriaid er budd y gymuned.

Cydweithio i osod blaenoriaethau, dylunio gwasanaeth a darpariaeth ar lefel is-ranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Arwain a goruchwylio strategaeth a pherfformiad aml-ddisgyblaethol gydag ystod o bartneriaid statudol.

Nodi a rheoli risgiau.

### Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau:

| | |
|---|---|
| **1.** | **Arweinyddiaeth** |
| 1.1 | Darparu amgylchedd dysgu ac ymagwedd gadarnhaol, ragweithiol a hyblyg wrth wneud penderfyniadau. |
| 1.2 | Darparu arweinyddiaeth strategol ac effeithiol mewn cydweithrediad â phenaethiaid gwasanaeth eraill, i ddarparu cynlluniau penodol fel y diffiniwyd yn y maes gwasanaeth ac ar draws y Cyngor i gyflawni mentrau corfforaethol, ynghyd ag ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. |
| **2.** | **Dyletswyddau Statudol** |
| 2.1 | Darparu cefnogaeth a chyngor proffesiynol i'r Aelodau a Chyfarwyddwyr Strategol i gefnogi darpariaeth amcanion y Cyngor ac i ddiwallu cyfrifoldebau statudol y Cyngor a chyflawni swyddogaethau Swyddog Monitro. |
| **3.** | **Gweledigaeth** |
| 3.1 | Bod yn esiampl o ddiben a gweledigaeth y sefydliad a sicrhau bod rheolwyr yn canolbwyntio ar gyflawni'r weledigaeth honno. |
| **4.** | **Darpariaeth Gwasanaeth, Comisiynu, Adolygu, Ailddylunio, Safonau, Cwsmeriaid** |
| 4.1 | Sicrhau bod ystod briodol o wasanaethau cyfoes yn cael eu cynllunio, eu comisiynu a'u darparu gan ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys datblygu cynlluniau busnes. |
| 4.2 | Sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol, yn gost effeithlon, yn cael eu hadolygu a'u hailddylunio lle bo'r angen er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion. |
| 4.3 | Sicrhau gwasanaethau o safon uchel sy'n diwallu canllawiau a safonau statudol ac arfer da. |
| 4.4 | Ymroi i ddarparu gwasanaethau cwsmer rhagorol i ddiwallu disgwyliadau a bodloni anghenion cwsmeriaid. |
| 4.5 | Sicrhau bod anghenion, risgiau a materion yn cael eu codi'n gorfforaethol a rhanbarthol a sicrhau bod cydweithrediad effeithiol. |
| 4.6 | Adrodd a chael eich dwyn i gyfrif drwy broses y pwyllgor craffu. |
| **5.** | **Gwaith Partneriaeth**<br>Mae gwaith partneriaeth yn gyfran sylweddol o rôl Pennaeth Gwasanaeth: |
| 5.1 | Creu a datblygu partneriaethau effeithiol gyda gwasanaethau mewnol ac asiantaethau a sefydliadau allanol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector er mwyn gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor i ddiwallu ei amcanion strategol. |
| 5.2 | Ymgysylltiad effeithiol gyda phartneriaid statudol; darparu her a'u dwyn i gyfrif fel bo'r angen. |
| 5.3 | Hyrwyddo a datblygu perthnasau gwaith, meithrin diwylliant o waith partneriaeth o fewn y Cyngor a thu allan i'r Cyngor, a, lle bo'n briodol, derbyn cyfrifoldeb ac arwain prosiectau a rhaglenni o bwysigrwydd rhanbarthol yn aml. |
| **6.** | **Gwasanaeth Corfforaethol, Strategaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol a Datblygu Polisïau** |
| 6.1 | Datblygu a gweithredu polisïau a strategaethau sy'n darparu safonau uchel a gwelliant parhaus o ran canlyniadau a safonau ar gyfer y gwasanaeth a Defnyddwyr Gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| 6.2 | Cyfrannu tuag at ddatblygiad strategaethau Gwasanaethau eraill o fewn cylch gwaith y Pennaeth Gwasanaeth neu Wasanaethau eraill y Cyngor a gyda phartneriaid statudol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. |
| 6.3 | Cyfrannu at bolisïau Cenedlaethol a dyraniad adnoddau, a dylanwadu arnynt. |
| **7.** | **Newid a Gwelliant Parhaus** |
| 7.1 | Hyrwyddo newid a gwelliant o fewn y gwasanaethau penodol ac o fewn y Cyngor yn gyffredinol. |
| 7.2 | Ffurfio a goruchwylio cynlluniau gweithredu mewn ymateb i arolwg allanol gan Reoleiddwyr allanol, yr Adolygiadau Statudol a chyfraith achos mewn perthynas â meysydd gwasanaeth portffolio. |
| 7.3 | Cyfathrebu a darparu gweledigaeth ar gyfer gweithwyr mewn perthynas â newidiadau a gwelliant. |
| 7.4 | Monitro a defnyddio data perfformiad i feincnodi gwasanaethau ac fel tystiolaeth ar gyfer datblygiadau gwasanaeth. |
| 7.5 | Paratoi'r Cyngor ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol drwy ganfod cyfleoedd newydd. |
| **8.** | **Rheoli Adnoddau** |
| 8.1 | Bod yn atebol yn y pen draw am reolaeth adnoddau yn y maes/meysydd gwasanaeth penodol a rhannu cyfrifoldeb gyda Phenaethiaid Gwasanaeth eraill i gyflawni yn erbyn amcanion a rennir. |
| 8.2 | Sicrhau bod cyllidebau ac adnoddau eraill wedi'u cynllunio, eu monitro a'u rheoli a bod gwariant yn cael ei reoli i sicrhau bod holl reolwyr gwasanaeth yn deall ac yn derbyn cyfrifoldeb am gydbwyso'r cyllidebau. |
| 8.3 | Nodi a gweithredu gostyngiadau gwasanaeth a/neu fodelau darparu amgen lle bo'n briodol. Cydbwyso hyn gyda'r risg o adolygiad barnwrol yn unol â swyddogaethau atebolrwydd statudol. |
| 8.4 | Sicrhau strwythur clir o atebolrwydd a rheolaeth. |
| 8.5 | Gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth i ddiwallu'r amcanion a nodau strategol. |
| 8.6 | Cyflwyno Achosion Busnes yn seiliedig ar dystiolaeth lle bo perygl na ellir cyflawni swyddogaethau statudol. |
| 8.7 | Goruchwylio Ceisiadau Grant a Chanlyniadau ynghyd â'r Gyllideb Graidd. |
| 8.8 | Trafod bargen deg yn effeithiol ar gyfer preswylwyr Conwy, yn unol â blaenoriaethau'r gwasanaeth, mewn gwaith Comisiynu Rhanbarthol ac Is-ranbarthol a datblygiadau gwasanaeth. |
| 8.9 | Atebol am gyllideb refeniw gros o £3,635,098, y gyllideb net yw £2,238,143, gyda'r gwahaniaeth o £1,396,955 yn deillio o incwm ar hyn o bryd. Rhoddir cyngor arbenigol yn ôl yr angen, i gefnogi gyda llywodraethu'r prosiectau cyfalaf amgylchynol. |
| 8.10 | Nodi gostyngiadau, arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd refeniw newydd i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol. |

| | |
|---|---|
| 8.11 | Llofnodwr awdurdodedig at hyd at £200,000 ac yn Swyddog Selio dynodedig ar gyfer dogfennaeth gyfreithiol. |
| 8.12 | Atebol am asedau, sy'n cynnwys Cyfarpar sy'n berthnasol i Adeiladau a Gwasanaethau. |
| **9.** | **Diogelwch, Ansawdd a Rheoli Perfformiad** |
| 9.1 | Datblygu a gweithredu polisïau a strategaethau sy'n darparu safonau uchel a gwelliant parhaus mewn canlyniadau a safonau ar gyfer y gwasanaeth a Defnyddwyr Gwasanaeth. |
| 9.2 | Sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant, cefnogaeth ac adnoddau angenrheidiol i ymgymryd â'u rôl yn ddiogel. Wrth ymgymryd â'u dyletswyddau proffesiynol arbenigol, ac ar ran dinasyddion diamddiffyn a dinasyddion sy'n agored i risg yng Nghonwy. Hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol, ac arwain drwy esiampl. |
| 9.3 | Sicrhau bod gwybodaeth ariannol, data ansawdd gwasanaeth a chanlyniadau yn cael eu casglu a defnyddio data perfformiad yn barhaus. |
| 9.4 | Drwy gynlluniau busnes a phrosiect, dangosyddion perfformiad a mesuryddion canlyniadau, i arddangos diwylliant o berfformiad uchel. |
| 9.5 | Sefydlu fframwaith i sicrhau arferion proffesiynol o ansawdd yn y gwasanaethau, gan gynnwys cynnal archwiliadau ymarfer rheolaidd ac arsylwadau gan reolwyr ar bob lefel yn y Gwasanaeth a dulliau adrodd yn y prosesau rheoli. |
| 9.6 | Sicrhau bod yr holl Gyfrifoldebau ac Atebolrwydd uchod hefyd yn cael eu darparu yn y gwasanaethau a gomisiynir, lle bo'n briodol, o fewn cydweithrediadau rhyngasiantaethol ac ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol. |
| **10.** | **Rheoli Risg** |
| 10.1 | Adolygu holl weithgareddau a phrosiectau'r gwasanaeth yn rheolaidd i sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli'n briodol. Sicrhau rheolaeth risg- drwy asesiad risg, gweithdrefnau monitro risg, a mesurau lliniaru risg gan gynnwys risgiau i weithwyr, aelodau'r cyhoedd, cwsmeriaid y Cyngor, asedau'r Cyngor, risgiau diogelu a risgiau i enw da'r Cyngor. Mae'r meysydd risg y dylid eu rheoli yn cynnwys: rheoli data, parhad busnes, diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. |
| 10.2 | Rheoli risg adolygiad barnwrol sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau o fewn gwaith achos ar ran pobl ddiamddiffyn a phobl sy'n agored i risg. |
| **11.** | **Cyfrifoldebau Adnoddau Dynol** |
| 11.1 | Sicrhau rheolaeth ansawdd uchel a chyson o allu a pherfformiad staff. |
| 11.2 | Sicrhau datblygiad cynllun gweithlu ar y cyd â phrosesau cynllunio busnes, gan weithio ar y cyd ar draws y Cyngor a chyda chyrff allanol i ddiwallu anghenion y cynllun. |
| 11.3 | Cyfrannu at ddatblygiadau'r Gweithlu Rhanbarthol. |
| 11.4 | Cynnal myfyrwyr sy'n ymgymryd â chymhwyster proffesiynol a gweithio mewn partneriaeth â'u sefydliadau addysgol i adolygu a datblygu cynnwys cyrsiau. |
| 11.5 | Rheoli absenoldeb i ddiwallu targedau perfformiad allweddol. |

| | |
|---|---|
| 11.6 | Sicrhau cysylltiadau a chyfathrebu effeithiol ac adeiladol gyda'r staff. |
| 11.7 | Sicrhau recriwtio effeithiol a chynaliadwy i ddiwallu amcanion y sefydliad. |
| 11.8 | Rheolwr atebol i 5 rheolwr gyda'r meysydd canlynol o gyfrifoldeb:<br>• Gwasanaethau Cyfreithiol<br>• Gwasanaethau Democrataidd<br>• Yr Uned Iaith a Chyfieithu<br>• Gwasanaethau Cofrestru<br>• Cymhorthydd Cyfreithiol/Cymorth i Fusnesau<br>a chyfrifoldeb cyffredinol am 81 o staff (62.5 FTE). |
| **12.** | **Cydraddoldeb a Diogelu** |
| 12.1 | Hyrwyddo egwyddorion Polisi Cydraddoldeb y Cyngor. |
| 12.2 | Fel uwch arweinydd, cyfrannu at greu a chynnal diwylliant agored a chefnogol sy'n gwneud y mwyaf o botensial gweithwyr ar draws y sefydliad ac yn annog cynhwysiant, arloesi a pherfformiad uchel. |
| 12.3 | Sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu ei gyfrifoldebau cydraddoldeb a chynaliadwyedd o dan ofynion deddfwriaethol penodol, gan dynnu sylw at risiau a materion. |
| 12.4 | Cyfrannu at rwymedigaethau'r Cyngor mewn perthynas â Diogelu, gan sicrhau bod Diogelu yn cael ei nodi fel cyfrifoldeb i holl staff y Cyngor. |
| 12.5 | Cymryd rôl arweiniol i ddarparu cefnogaeth ac ymgynghoriaeth dros faterion diogelu sy'n codi yn y gwasanaeth. |
| **13.** | **Cyfrifoldebau Dirprwyedig** |
| 13.1 | Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol a gyflwynir gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol o dan y cynllun dirprwyo, ac o fewn y fframwaith a rheoliadau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau. |
| 13.2 | Ymateb i gwynion gan y cyhoedd ac ymholiadau gan Aelodau, Gweinidogion, swyddogion Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr, Crwner a'r Ombwdsmon. |

| Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad: | |
|---|---|
| 1. | Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn gwbl gyfrifol am eu gwasanaeth ac mae eu perfformiad yn cael ei reoli gan y Prif Weithredwr. |
| 2. | Mae'n ofynnol bod deiliad y swydd yn cydbwyso cyfrifoldebau strategol a gweithredol, rheoli gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Diwallu cyfrifoldebau i bartneriaid statudol wrth ddarparu gwasanaethau amlddisgyblaethol a dyletswyddau statudol. |
| 3. | Mae'n ofynnol bod deiliad y swydd yn meddu ar y gallu i strwythuro materion cymhleth a llunio penderfyniadau cytbwys yn seiliedig ar wybodaeth. Bydd gan ddeiliad y swydd y gallu a'r weledigaeth i ragweld a dylanwadu ar newid mewn ymateb i anghenion a nodwyd, a meddu ar y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i reoli materion cymhleth a gofynion sy'n cystadlu mewn amgylchedd dynamig, gan gynnwys ar lefel ryng-asiantaethol a rhanbarthol. |



| | |
|---|---|
| 4. | Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am raglenni gwaith corfforaethol a datblygiadau rhanbarthol a chenedlaethol. |

| Gwiriadau Cyflogaeth/Gofynion Penodol: | |
|---|---|
| 1. | Swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol. |
| 2. | Swyddfa Statudol Swyddog Monitro - Gweler uchod. |

| Gweledigaeth/Cyd-destun | |
|---|---|
| 1. | Disgwylir i ddeiliad y swydd arddangos ymddygiad arweiniol, sgiliau rheoli a chyfrifoldeb i greu diwylliant o waith tîm, cydnabod llwyddiant, cyfathrebu yn ôl ac ymlaen a gwelliant parhaus. Creu diwylliant o ymddiriedaeth a gweithio ar y cyd i gyflawni canlyniadau a dysgu gan eraill i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoli a rennir, yn yr adran, ac wrth gynrychioli Conwy yng nghyd-destun byrddau is-ranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. |
| 2. | Herio partneriaid allweddol yn effeithiol wrth drafod a darparu swyddogaethau statudol. |
| 3. | Gweithio ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaeth, aelodau o'r cyhoedd a phartneriaid statudol a chyrff rheoleiddio. |

## Dyddiad Adolygu/Hawl i Amrywio

Ni fwriedir i'r swydd-ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gyflawn o holl ddyletswyddau'r swydd. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i adolygu cynnwys y swydd-ddisgrifiad hwn; y gellid diwygio ei gwmpas yn sgil y newid yn y blaenoriaethau yn y dyfodol. Nid yw'r Gwasanaethau a reolir o reidrwydd yn sefydlog ac mae'n bosibl y byddant yn newid eto yn y dyfodol wrth i flaenoriaethau corfforaethol neu anghenion sefydliadol newid.

**Roedd ein Harolwg Staff 2018 yn dangos fod 86% o staff yn teimlo fod Conwy yn darparu gwasanaeth da i gwsmeriaid**

# Manylion am yr Unigolyn

**Swydd: Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu**

**Dyddiad: Tachwedd 2022**

**Sylwch: Er mwyn cael eich cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer y swydd hon, bydd rhaid i chi ddangos eich bod yn bodloni pob un o'r meini prawf H - Hanfodol.**

| Ffactor | Gofynion | Sut bydd yn cael ei brofi | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg a Chymwysterau** | Cyfreithiwr neu fargyfreithiwr cymwys, gyda phrofiad ôl-gymhwyso sylweddol. | FfG | H | |
| | Cymhwyster Rheoli e.e. MBA/DMS neu gyfwerth. | FfG | | D |
| | Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus perthnasol. | FfG | H | |
| | Mae'r gallu i gyfathrebu yn Saesneg yn hanfodol. | FfG/C | H | |
| | Mae'r gallu i siarad Cymraeg sgyrsiol yn hynod ddymunol ond nid yw'n hanfodol. | FfG/C | | D |
| | Mae'r gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn ddymunol. Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg ardderchog ar gyfer adroddiadau a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd pwyllgorau. | FfG | | D |
| **Profiad Perthnasol** | Profiad a hanes blaenorol o ddarparu cyngor cyfreithiol, cyfansoddiadol a gweithdrefnol o ansawdd uchel o fewn cyd-destun perthnasol (e.e. llywodraeth leol, sector cyhoeddus, sector perthnasol arall), gyda dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol a chyfreithiol yng Nghymru. | FfG/C | H | |
| | Profiad o ddatblygu a darparu swyddogaethau rheoli perfformiad, a phrosesau rheoli cyllidebau ar lefel uwch o fewn Awdurdod Lleol neu sefydliad perthnasol arall. | FfG/C | H | |
| | Profiad o waith ar lefel rheoli uwch mewn sefydliad amrywiol a chymhleth yn y sector cyhoeddus. | FfG/C | | D |
| | Tystiolaeth o brofiad o arwain a rheoli timau amlddisgyblaethol yn llwyddiannus, gan arwain at well canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. | FfG/C | H | |
| | Profiad o weithio i ddatblygu gwasanaethau integredig ac ar y cyd yn effeithiol. | FfG/C | | D |
| | Profiad helaeth o gynllunio a rheoli cyllidebau mawr ac adnoddau eraill o fewn y sector cyhoeddus neu breifat. | FfG/C | H | |
| | Profiad a gwerthfawrogiad o effaith a pherthnasedd TGCh i ddatrysiadau busnes, cynllunio, rheoli a darpariaeth gwasanaeth. | FfG/C | | D |
| | Profiad o waith partneriaeth effeithiol gydag ystod eang o gyrff mewnol ac allanol. | FfG/C | H | |
| | Profiad o weithio gydag aelodau etholedig / llywodraethwyr mewn modd adeiladol ac ystyriol o wleidyddiaeth. | FfG/C | | D |
| **Gwybodaeth a Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd** | Gallu meddwl a chynllunio yn strategol, analytig ac yn ariannol pan fo materion cymhleth yn codi, a chanfod datrysiadau creadigol ac arloesol. | FfG/C | H | |
| | Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r prif faterion y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu a'u goblygiadau posibl. | FfG/C | H | |
| | Gallu defnyddio a chymhwyso TGCh perthnasol gyda natur a gofynion y swydd. | FfG/C | H | |
| | Gallu gweithio ar y cyd. | FfG/C | H | |
| | Gallu dylanwadu ar eraill a darparu'r lefelau uchaf o wasanaethau cwsmer. | FfG/C | H | |
| | Ysbrydoli timau a grwpiau i alluogi trawsnewid. | C | H | |
| | Sgiliau cyfathrebu/cyflwyno rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Sgiliau rhyngbersonol da iawn. | C | H | |
| | Sgiliau rheoli prosiectau rhagorol. | C | H | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gallu arddangos ymrwymiad i ddarparu gwerth am arian ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. | C | H | |
| | Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion allweddol mewn meysydd gwasanaeth penodol. | FfG/C | H | |
| | Profiad o weithio o fewn fframweithiau deddfwriaethol. | FfG/C | H | |
| **Rhinweddau Personol** | Gallu dangos sgiliau rhagorol o ran doethineb, diplomyddiaeth, perswadio, trafod, eirioli a phendantrwydd. | C | H | |
| | Ymwybyddiaeth fusnes yn ymwneud ag amodau'r farchnad leol a chenedlaethol a materion busnes ehangach. | C | | D |
| | Sgiliau rheoli cysylltiadau rhagorol, gyda'r gallu i weithio gydag aelodau, gydag ymwybyddiaeth wleidyddol lefel uchel. | FfG/C/G | H | |
| | Arddangos ymrwymiad cryf i wasanaeth cyhoeddus a chyfle cyfartal. | FfG/C/G | H | |
| | Arddangos ymrwymiad cryf i wasanaeth cwsmer. | FfG/C/G | H | |
| | Ymdeimlad cryf o farn wleidyddol a sensitifedd. | FfG/C/G | H | |
| | Ymdeimlad cryf o atebolrwydd eich hunan ac eraill. | FfG/C/G | H | |
| | Derbyn cyfrifoldeb am gamgymeriadau a'u defnyddio fel cyfleoedd dysgu ar gyfer eu gwasanaeth. | FfG/C/G | H | |
| | Lefel uchel o gywirdeb ac uniondeb a sy'n agored ac onest. | FfG/C/G | H | |
| | Dangos gwydnwch a chadernid o dan bwysau. | FfG/C/G | H | |
| | Ymateb a hyblygrwydd i newidiadau o ran gofynion a blaenoriaethau. | FfG/C/G | H | |
| | Addasu arddull bersonol i ddiwallu gofynion sefyllfaoedd cymhleth. | FfG/C/G | H | |
| | Dangos cymhelliant ar gyfer llwyddiant a pherfformiad. | FfG/C/G | H | |
| | Brwdfrydig, ymroddedig, gallu cymell eich hunan ac ymdeimlad cryf o bwrpas. | FfG/C/G | H | |



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Dangos y gallu a'r weledigaeth i ragweld a dylanwadu ar newid mewn ymateb i anghenion gwasanaeth. | FfG/C/G | H | |
| | Profiad o ysgrifennu adroddiadau cymhleth. | FfG | H | |
| | Sgiliau cyflwyno, gan gynnwys mewn ymchwiliadau, pwyllgorau neu lysoedd. | FfG/C | H | |
| **Gofynion Eraill** | Gallu dadansoddi data. | FfG/C | H | |

Nodwch: Er mwyn bod ar y rhestr fer ar gyfer y swydd hon, bydd rhaid i chi ddangos eich bod yn bodloni pob un o'r meini prawf H - Hanfodol.

Byddwn yn profi a ydych yn diwallu'r anghenion drwy gyfrwng:

- Ffurflen Gais (FfG)
- Cyfweliad (C)
- Prawf yn y cyfweliad (P)
- Cyflwyniad yn y cyfweliad (Cyfl)
- Gwiriad (Gw)
- Geirda (G).

# Graddfa Gyflog Prif Swyddog 01/04/2022-23

| | | 01/04/2022 |
|---|---|---|
| **Penaethiaid Gwasanaeth 2 (H5 - H8)** | H5 | £68,218 |
| | H6 | £70,538 |
| | H7 | £73,969 |
| | H8 | £78,292 |

# Amodau a Thelerau Gwasanaeth/ Buddiannau Gweithiwr

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu

| | |
|---|---|
| **Cyflog** | £68,218 - £78,292. Graddfa gynyddrannol 4 pwynt.<br>Bydd y cyflog yn cael ei dalu drwy drosglwyddiad credyd uniongyrchol ar y 15fed o bob mis. |
| **Amodau Gwasanaeth** | Bydd yr amodau a'r telerau cyffredinol yn unol â rhai'r Cyd-Bwyllgor Negodi ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol a, phan fo'n briodol, telerau lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. |
| **Gwyliau Blynyddol** | 33 diwrnod a gwyliau banc. |
| **Banc Gwyliau** | Gallu bancio hyd at 8 diwrnod y flwyddyn a chael banc gwyliau o hyd at 40 diwrnod. |
| **Ffôn** | Bydd y Cyngor yn darparu ffôn symudol a dyfeisiau symudol eraill at ddefnydd busnes fel rhan o'r rhaglen Doethwaith (gweithio hybrid). |
| **Cynllun Pensiwn** | Bydd deiliad y swydd yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. |
| **Oriau Gwaith** | Yr wythnos waith enwol yw 37 awr. Fodd bynnag, dylid cydnabod nad oes modd cyflawni'r swydd yn foddhaol gydag wythnos waith benodol ac felly bydd angen gweithio rhywfaint o oriau anghymdeithasol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau. Mae hyn wedi'i ystyried wrth bennu cyflog y swydd a'r amodau cyflogaeth eraill. |
| **Cyfnod Rhybudd** | Gwneir yr apwyntiad yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis gan bawb. |
| **Gweithgareddau Allanol** | Bydd deiliad y swydd yn gorfod rhoi ei holl amser i wasanaeth y Cyngor ac ni fydd yn ymgymryd ag unrhyw fusnes neu'n derbyn penodiad arall heb gydsyniad datganedig gan y Cyngor. Ni fydd deiliad y swydd yn israddio ei ddyletswyddau i'w fuddiannau personol nac yn rhoi ei hun mewn sefyllfa lle mae dyletswyddau a buddiannau personol yn gwrthdaro. |
| **Cyfyngiadau Gwleidyddol** | Dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mae'r swydd hon yn swydd benodedig ac felly bydd y deiliad wedi'i atal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol penodol fel y nodir yn y Ddeddf. Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd ddangos amhleidioldeb. |
| **Treuliau Symud** | Efallai bod pecyn treuliau symud/adleoli ar gael. Gellir trafod hyn ymhellach gyda'r person a benodwyd. |
| **Teithio** | Yn unol â pholisi'r Cyngor, ad-delir milltiroedd busnes i staff. Mae cynllun y Cyngor yn seiliedig ar gyfraddau di-dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae dal a pharhau i ddal trwydded yrru ddilys y DU, neu'r gallu i ddefnyddio cludiant symudedd, yn un o amodau'r swydd. |



| | |
|---|---|
| **Gostyngiadau a Chynigion** | Ceir mynediad i gynigion lleol a chynigion y stryd fawr drwy wefan bwrpasol i staff, gyda gostyngiadau oddi ar docynnau sinema, siopau a theithio. |
| **Ffisiotherapi** | Mynediad i wasanaeth ffisiotherapi buan i dderbyn cymorth arbenigol ar gyfer problemau cefn ac MSD. |
| **Rhaglen Cymorth i Weithwyr a Chwnsela** | Mae'r gwasanaeth cwnsela/Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP) yn cynnwys:<br>• Gwasanaeth cwnsela a gwybodaeth 24/7 dros y ffôn<br>• Cwnsela wyneb yn wyneb pan fo angen<br>• Gwasanaeth gwybodaeth a chyngor arbenigol (dros y ffôn ac ar-lein 24/7) ar ddyledion, budd-daliadau a materion a phersonol. |
| **Aelodaeth Ffit Conwy** | Gostyngiad o 40% oddi ar aelodaeth 'Ffit Conwy'. Mae'r cynllun yn caniatáu i weithwyr ddefnyddio holl gyfleusterau hamdden y sir. |
| **Cynlluniau Aberthu Cyflog** | Mae'r Cynlluniau Aberthu Cyflog ar gael drwy gydol y flwyddyn ar gyfer Beicio i'r Gwaith a Cheir, gydag arbedion gwych. |
| **Talebau Gofal Llygaid** | Talebau i dderbyn profion llygaid am ddim a thuag at brynu sbectolau newydd drwy'r Cynllun Talebau Gofal Llygaid. |
| **Gwobr Gwasanaeth Hir** | Mae gweithwyr yn derbyn £200 ar ôl 25 mlynedd a £400 ar ôl 40 blynedd. |

**Roedd ein Harolwg Staff 2018 yn dangos fod 88% o staff yn teimlo'n falch o weithio i Gonwy**

# Sut i Ymgeisio

Diolch am ddangos diddordeb yn swydd y Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, a'r cyfle i siapio ein siwrnai i fod yn Sir Flaengar sy'n Creu Cyfleoedd.

**Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth bwysig i gynorthwyo gyda'ch cais.**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais er mwyn cael eu hystyried. Ni dderbynnir CV yn unig. Gallwch gyflwyno CV gyda'ch ffurflen gais wedi'i llenwi'n gyflawn. Gwnewch yn siŵr bod eich manylion cyswllt yn cael eu cynnwys.

I wneud cais am y swydd cliciwch **yma**

- Gwnewch yn siŵr bod pob bwlch mewn hanes cyflogaeth ac addysg yn cael ei egluro'n llawn ar eich cais/CV; efallai byddwn yn gwirio'r wybodaeth yn ystod y broses recriwtio
- Rhowch fanylion dau ganolwr. Sylwch byddwn ond yn mynd at ganolwyr os bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad a dim ond gyda'ch caniatâd chi. Nodwch yn glir os allwn ni fynd at bob un canolwr cyn y dyddiad dewis
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'r afael â'r gofynion allweddol a nodir yn y manylion am yr unigolyn
- Llenwch y Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal pan fyddwch yn uwch-lwytho eich manylion. Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein holl swyddi yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned ac yn defnyddio'r data i fonitro ein cynnydd wrth wneud hyn
- Cyflwynwch eich cais ac unrhyw wybodaeth gefnogol erbyn y dyddiad cau
- Ar ôl y dyddiad cau, bydd aelod o'r Gwasanaeth AD yn cysylltu â chi maes o law i ddiweddaru statws eich cais
- Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau technegol wrth lenwi'r ffurflen gais ar-lein, cysylltwch â **cefnogaethsystemad@conwy.gov.uk** / 01492 576129.

Mae Conwy wedi ymrwymo i ddiogelu. Bydd cymwysterau a geirdaon yn cael eu dilysu.

Mae Conwy yn croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned. Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni gofynion hanfodol y swydd yn cael cyfweliad. Bydd y Cyngor yn darparu cyfleusterau gwaith addas ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Gall pobl anabl wneud cais ar wahanol ffurfiau. Cysylltwch â'r Tîm AD ar 01492 576129 i gael cyngor pellach.

Mae Conwy wedi ymrwymo i Safonau'r Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg ac ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai a gyflwynir yn Saesneg.

Os nad ydych wedi cael gwahoddiad i gyfweliad o fewn tair wythnos o'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.




Mae'r amserlen ganlynol yn nodi'r dyddiadau allweddol yn y broses recriwtio:

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Dyddiad cau | Hanner nos 10 Ionawr 2023 |
| Tynnu Rhestr Fer (dim angen i'r ymgeiswyr fod yn bresennol) | 12 Ionawr 2023 |
| Proses Asesu Ar-lein (Profion Seicometrig) | Rhwng 13 ac 15 Ionawr 2023 |
| Cyfarfod/Rhag-gyfarfod gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol | 18 Ionawr 2023 |
| Cyfweliad gyda'r Uwch Bwyllgor Cyflogaeth | 20 Ionawr 2023 |
| Cyflwyniad i'r Cyngor gan yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer a'r Cyngor yn penodi | 26 Ionawr 2023 |

# Diolch

Diolch am ddangos diddordeb yn swydd Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, a'r cyfle i siapio ein siwrnai i fod yn **Sir Flaengar sy'n Creu Cyfleoedd**.

**Dyddiad car ar gyfer ceisiadau: Hanner nos 10 Ionawr 2023.**

## Os oes gennych unrhyw ymholiadau

- I gael trafodaeth anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Rhun ap Gareth, Prif Weithredwr ar 01492 576015.
- Am wybodaeth bellach ac i wneud cais am y swydd cliciwch **yma**
- Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau technegol wrth lenwi'r ffurflen gais ar-lein, cysylltwch â **cefnogaethsystemad@conwy.gov.uk** / 01492 576129

**www.conwy.gov.uk**

/CBSConwy/

@CBSConwy

Dogfen wedi'i dylunio gan Gyfathrebu Corfforaethol a Marchnata, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy